



Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2009
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2009
Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 027/2002

Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion

Cynulleidfa	Pob Ysgol a Gynhelir, Awdurdodau Addysg Lleol.
Trosolwg	Ceir yn y canllawiau hyn gyngor newydd ar gasglu a chofnodi data am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig disgyblion. Mae'n disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27/02 'Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002.
Camau i'w cymryd	Casglu a chofnodi data am gefndir ethnig disgyblion mewn Systemau Gwybodaeth Reoli Ysgolion yn seiliedig ar y categorïau diwygiedig ac estynedig yn Atodiad A.
Rhagor o wybodaeth	Theresa Davies Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 1658 E-bost: DCELLS.SupportforLearnersDivision4@wales.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Gellir cael copïau ychwanegol gan y canlynol: Benjamin Graham-Woollard, gweler y cyfeiriad uchod. Ffôn: 029 2082 1745 Ffacs: 029 20801044
Dogfennau cysylltiedig	'Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith' (2006) Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27/02 'Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion' Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/98 'Adroddiadau ar Gyflawniadau Disgyblion o 1999' Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 41/89 'Ystadegau Seiliedig ar Ethnigrwydd ar Ddisgyblion Ysgol' <i>I weld rhagor o ddogfennau cysylltiedig gweler Atodiad F.</i>



ISBN 978 0 7504 5061 4

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2009

CMK-22-07-370

D7180809

Cynnwys

Crynodeb

Trosolwg

Cyflwyniad

Pam y gwneir cais am yr wybodaeth hon	8
Gwybodaeth bwysig ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth gasglu a chofnodi data am amrywiaeth cydraddoldeb a chynhwysiant	10

Dyletswyddau Statudol

Y Newidiadau i'r Categoriâu ar gyfer Cefndir Ethnig

Gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer penderfynu ar gefnir ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion	14
---	----

Y trefniadau yn 2009 o ddyddiad y Cylchlythyr hwn

Disgyblion Newydd	15
Arolwg Ailgoladu Llawn o'r Ysgol ar gyfer Disgyblion sydd eisoes ar y Gofrestr yn 2009	15

Trefniadau Cyffredinol

Pa ddata y dylid eu casglu a phryd	17
Pryd y dylid casglu'r wybodaeth hon	17
Cael gwybodaeth gan rieni	17
Swyddogaeth rhieni/oedolion sydd â chyfrifoldeb fel rhieni i benderfynu ar hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig	20
Derbyn ymatebion	21
Amharodrwydd i roi gwybodaeth	21
Yr hawl i wrthod darparu data	21

Mynediad gan rieni, y rheini sydd â chyfrifoldeb fel rhieni a disgyblion i ddata personol sensitif a gedwir yn yr ysgol	21
Priodoli	22
Hunaniaeth Genedlaethol	23
Darparu llythyron i rieni a'r Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefnidir Ethnig mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg	23

Atodiadau

Atodiad A: Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefnidir Ethnig	24
Atodiad B: Llythyron enghreifftiol i rieni	31
Atodiad C: Hysbysiad Preifatrwydd	37
Atodiad D: Ffynhonnell yr wybodaeth am gefndir ethnig	42
Atodiad E: Rhestri gweithredu'r ysgolion a'r AALLau	43
Atodaid F: Dogfennau cysylltiedig eraill	44

Crynodeb

Ceir yn y canllawiau hyn ar gyfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALLau) gyngor newydd ar gasglu a chofnodi data am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig disgyblion. Mae'n disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27/02 'Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002.

Diben y canllawiau hyn yw:

- tynnu sylw at y newidiadau a wnaed i'r categorïau ethnigrwydd a ddylai gael eu defnyddio wrth gofnodi gwybodaeth am gefndir ethnig disgyblion;
- egluro sut y bydd y newidiadau hyn yn gwella cywirdeb y data a gesglir am ethnigrwydd disgyblion unigol ac yn helpu i wella'r gwaith o fonitro, cynllunio a thargedu cymorth ac adnoddau ar gyfer disgyblion a chanddynt wahanol anghenion;
- rhoi cyngor manwl ar y camau y dylai ysgolion ac awdurdodau addysg lleol eu cymryd nawr o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Bydd angen iddynt gynnal ailrolwg ysgol o'r data ethnigrwydd ynghylch pob disgybl mewn da bryd er mwyn i'r data diwygiedig gael eu hymgorffori yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2010. Rhoddir cyngor hefyd ar ffyrdd o hwyluso'r broses hon.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'r categorïau newydd i gofnodi'r data ethnigrwydd yn gywir, rhoddwyd gwybodaeth ynghylch y newidiadau sy'n cael eu gwneud i holl gyflenwyr Systemau Gwybodaeth Reoli (MIS) ysgolion. Dylai'r feddalwedd ar gyfer ysgolion adlewyrchu'r newidiadau o flwyddyn academiaidd 2009-10 ymlaen.

Mae meddalwedd gyfredol MIS yn adlewyrchu naill ai lefel uchel o gategoreiddio, a elwir yn brif categorïau, neu ddadansoddiad mwy manwl ohonynt, sef categorïau estynedig. Hyd yma, mater i'w benderfynu'n lleol oedd p'un ai'r prif categorïau neu'r categorïau estynedig a gâi eu defnyddio gan ysgolion.

Y prif newid i'r categorïau hyn yw bod y feddalwedd MIS yn cynnwys yn awr restr o is-gategorïau estynedig i ddewis ohonynt ynghylch ethnigrwydd sydd bellach gryn dipyn yn hwy. Er enghraifft, ychwanegwyd yn helaeth at y rhestr o gategorïau Ewropeaidd ac erbyn hyn mae'n cynnwys, ymhlith rhai eraill, y categorïau Pwylaidd a Bwlgaraidd. Y bwriad yw rhoi dewis o gategorïau sy'n adlewyrchu'n fwy priodol yr amrywiaeth a welir ym mhoblogaeth ysgolion yng Nghymru. Taer anogir ysgolion i ddefnyddio'r is-gategorïau estynedig hyn yn eu systemau MIS.

Newidiwyd hefyd y prif gategorïau ethnigrwydd gan ehangu'r categori 'Teithiwr' a newid ychydig ar y categori 'Sipsi/Roma'. Cyflwynwyd hefyd gategorïau estynedig ar gyfer y disgyblion hyn. Y bwriad y tu ôl i'r newidiadau arbennig hyn yw cynnig i ddisgyblion a rhieni Sipsiwn a Theithwyr well dewis a rhestr fwy cynhwysfawr y gallant uniaethu â hi.

Mae tri diben i'r canllawiau hyn:

- amlinellu'r categorïau diwygiedig i'w defnyddio i gasglu data am gefndir ethnig disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru;
- taer argymhell bod y categorïau estynedig yn cael eu defnyddio;
- rhoi canllawiau ar gasglu data am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig ar sail disgyblion unigol ar gyfer disgyblion sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol a disgyblion newydd.

Bydd yr wybodaeth a gesglir am bob plentyn yn lleol yn cael ei rhoi i'r awdurdod addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r CYBLD. Bydd yr wybodaeth fanylach a geir o ddefnyddio'r categorïau newydd a'r categorïau estynedig yn helpu gyda'r gwaith o fonitro cyrhaeddiad a dyrannu a thargedu adnoddau a chymorth yn genedlaethol ac yn lleol. Fodd bynnag, ni fydd y data ynghylch ethnigrwydd yn caniatáu i ddisgyblion unigol gael eu hadnabod yn gyhoeddus. Bydd unrhyw ddata yn cael eu rhyddhau yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau Cenedlaethol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion gymryd rhai camau fel a ganlyn:

Yn ystod 2009

AALI: cynghori a chynorthwyo ysgolion gyda'r gwaith o gasglu a chofnodi data am gefndir ethnig disgyblion yn seiliedig ar y rhestr estynedig o gategorïau.

Ysgolion: dechrau casglu data am ddisgyblion **newydd** drwy gyfeirio at y categorïau diwygiedig ar gyfer cefndiroedd ethnig a chynnal ailrolwg o'r holl ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Erbyn Ionawr 2010

Sicrhau bod ysgolion wedi cofnodi data am ethnigrwydd yn seiliedig ar y categorïau diwygiedig, estynedig, fel y nodir yn y ddogfen hon, ar gyfer pob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol mewn da bryd ar gyfer CYBLD 2010.

Mae llawer o ysgolion yn cynnal adolygiad blynyddol rheolaidd er mwyn gwirio data gyda rhieni yn ystod tymor yr hydref ac mae'n bosibl y byddant yn ystyried bod yr adeg honno a'r cyfle hwnnw yn briodol i gasglu data newydd neu ddiwygio data gan rieni neu ddisgyblion. Fel arall, mae'n bosibl y bydd ysgolion am fanteisio ar y cyfle i drafod y mater hwn gyda rheini plant iau yn rhan o gyfarfod rhieni a chasglu'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adeg honno.

Dylai disgyblion dros 16 oed gael y cyfle i roi data am eu cefndir ethnig eu hunain.

Trosolwg

Oddi ar 1990, mae Cylchlythyr 41/89 y Swyddfa Gymreig wedi gofyn i ysgolion gael gwybodaeth gan rieni am gefndir ethnig pob disgybl pan fyddant yn dechrau ar eu haddysg gynradd ac eto pan fyddant yn mynd i'r ysgol uwchradd. Roedd Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27/02 yn disodli Cylchlythyr 41/89 y Swyddfa Gymreig a chafwyd ynddo ganllawiau newydd i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ar gasglu a chofnodi gwybodaeth am gefndir ethnig disgyblion. Roedd hefyd yn rhagaratoad i'r gwaith o gynnwys y data hyn wrth gynnal CYBLD.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli Cylchlythyr 27/02. Nod y canllawiau newydd a gyhoeddir nawr yw:

- cryfhau'r gwaith monitro ethnig yn lleol ac yn genedlaethol a nodi'r anghyfartaledd sy'n bod o ran deilliannau trwy wella'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch cefndir ethnig disgyblion;
- sicrhau bod y gweithdrefnau y mae ysgolion yn eu defnyddio i gael gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 yng nghyd-destun casglu, storio a rhannu gwybodaeth ar lefel disgyblion;
- symud tuag at system newydd o ddsbarthu ethnig a fydd hefyd yn well.

Nod y canllawiau yw rhoi digon o fanylion er mwyn i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol fod yn glir am yr hyn y dylent ei wneud yn y gwahanol sefyllfaoedd y maent yn debygol o ddod ar eu traws. Yn ail, sicrhau bod yr wybodaeth a gafwyd yn ddigon cyflawn a chywir i'r gwaith monitro ethnig fod yn effeithiol.

Dylai ysgolion barhau i drosglwyddo data am ethnigrwydd disgyblion unigol i unrhyw ysgol arall a gynhelir a, lle bo modd, i ysgolion annibynnol y byddant yn trosglwyddo iddynt. Bydd hyn yn golygu na fydd yn rhaid gofyn eto i rieni am yr wybodaeth hon. Bydd gwybodaeth am gefndir ethnig disgyblion a fydd yn

rhaglen MIS yr ysgol yn cael ei chynnwys yn awtomatig yn y Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin y mae'n ofynnol i ysgolion eu llunio a'u hanfon yn electronig i ysgolion newydd y disgyblion.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd yr ymgais hon i gael yr holl wybodaeth am bob disgybl ar sail y categorïau ethnig diwygiedig yn dasg enfawr ond bydd cynnwys y data estynedig yn ein galluogi ni i gael gwell gwybodaeth ar lefel ysgolion wrth asesu a monitro cynnydd disgyblion yn erbyn eu cefndir ethnig. Mae'n bwysig hefyd fod gan rieni a disgyblion y cyfle i ddewis o blith rhestr estynedig o gategorïau a fydd yn adlewyrchu'n fwy priodol eu cefndir ethnig.

Cyflwyniad

1. Ceir yn y canllawiau fodel o weithdrefnau ar gyfer casglu a chofnodi cefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion yr argymhellwn yn daer y dylai ysgolion eu dilyn ar unwaith. Mae'r canllawiau yn egluro arwyddocâd y newidiadau i'r dosbarthiadau wrth gasglu data am ethnigrwydd. Mae hefyd yn egluro'r cyfraniad pwysig y bydd y data hyn yn ei wneud i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth fonitro cyrhaeddiad ac wrth ddyrannu a thargedu adnoddau a chymorth i ddiwallu anghenion dysgu amrywiol disgyblion ac ymateb iddynt. Bydd y canllawiau yn eu galluogi i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd modd i ddisgyblion unigol gael eu hadnabod yn gyhoeddus yn rhan o'r broses hon o gasglu'r data gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pam y gwneir cais am yr wybodaeth hon

2. Gall casglu data am ethnigrwydd wneud cyfraniad mawr at y gwaith o gynllunio a gweithredu strategaethau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn parchu amrywiaeth ac yn cefnogi cynhwysiant addysgol pob disgybl. Mae data am ethnigrwydd eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi addysg yn lleol ac yn genedlaethol ac at lunio strategaethau addysgu a dysgu mewn ysgolion. Mae'r data yn helpu ysgolion i gynllunio darparu cyfleoedd dysgu personol effeithiol ar gyfer pob disgybl gan gynnwys ymateb i anghenion dysgu amrywiol disgyblion. Mae cyfeirio at ethnigrwydd wrth fonitro cyrhaeddiad yn galluogi ysgolion i ddiwallu anghenion amrywiol disgyblion a mesur effeithiolrwydd yr ysgol.

3. Bydd data mwy penodol am ethnigrwydd yn cynorthwyo â monitro cyrhaeddiad a dyrannu a thargedu adnoddau yn lleol ac yn genedlaethol, er enghraifft, er mwyn cefnogi grwpiau y mae eu cyrhaeddiad yn is na'r lefelau disgwylidig. Golyga hefyd y gellir dynodi ar wahân rai grwpiau o ddysgwyr, megis disgyblion Pwylaidd, a gawsai eu hymgorffori gynt yn rhan o'r prif gategoriâu cyffredinol.

4. Bydd y data estynedig am ethnigrwydd, ynghyd â mathau eraill o ddata ynghylch disgyblion drwy CYBLD megis cyrhaeddiad, yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn werthuso polisiau cenedlaethol a sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir o'r canol yn cael eu targedu'n briodol ac yn effeithiol.

5. I'r ysgolion, mae manteision eraill o gasglu data sy'n uniongyrchol berthnasol i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Bydd casglu'r wybodaeth yn rhoi neges glir i blant a rhieni bod hunaniaeth pob plentyn yn cael ei chydabod a'i pharchu o fewn cymuned yr ysgol. Hefyd, bydd y data a geir yn datblygu gwybodaeth ysgolion am eu disgyblion a'r cymunedau a wasanaethant.

6. Bydd y data yn cynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ôl y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob disgybl gan roi lle canolog i'r egwyddor sylfaenol o 'gynnwys pob dysgwr' gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol ei hun fel y man cychwyn i gynllunio cwricwlwm ysgol a fydd yn diwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

7. Bydd y data yn cynorthwyo ysgolion i greu amgylcheddau dysgu effeithiol lle gall pob disgybl gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dulliau addysgu, asesu a threfniadaethol priodol a gosod targedau sy'n briodol i wahanol ddisgyblion. Gall data gael eu defnyddio hefyd i gynorthwyo â gweithgareddau dysgu a fydd yn herio rhagfarn ac agweddau negyddol plant tuag at wahaniaethau.

8. Mae'r newid i'r categorïau ethnigrwydd yn un o nifer o newidiadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cyflwyno, neu'n bwriadu eu cyflwyno, i broses CYBLD er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r data sydd ar gael wrth ymateb i anghenion dysgu amrywiol disgyblion.

9. Gellir cysylltu gwybodaeth am gefndir ethnig disgyblion â mathau eraill o ddata am ddisgyblion, megis cyrhaeddiad, drwy CYBLD eisoes. Yn sgil y newidiadau hyn i'r dosbarthiadau ethnigrwydd ym meddalwedd MIS ysgolion gellir trawsgyfeirio'r wybodaeth hon yn well mewn modd a fydd o gryn gymorth i ysgolion, awdurdodau addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth fonitro cyrhaeddiad ac agweddau eraill ar addysg a chefnidir disgyblion ac wrth gymryd camau priodol.

10. Yn ogystal â'r dosbarthiadau ethnigrwydd, mae CYBLD hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod hunaniaeth genedlaethol disgybl yn cael ei nodi. Dylid nodi na fydd y categorïau sy'n ymddangos ar gyfer hunaniaeth genedlaethol ar ffurflenni CYBLD yn cael eu newid o'r hyn a welir yng Nghylchlythyr 27/02. Ceir rhagor o fanylion ar ddewis hunaniaeth genedlaethol ym mharagraffau 24 i 51.

Gwybodaeth bwysig ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth gasglu a chofnodi data am amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant

11. Mae egwyddorion cyffredin diogelu data yn gymwys i ddata am gefndir ethnig. Dylai pawb sy'n trin a thrafod data personol fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ceir canllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <http://www.informationcommissioner.gov.uk/>

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gasglu gwybodaeth am gefndir ethnig eu disgyblion. Bydd yr wybodaeth a gesglir am gefndir ethnig yn cael ei defnyddio gan awdurdodau addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru at ddibenion ymchwil. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio hefyd i lunio ystadegau ar gynnydd a phrofiadau disgyblion. Ni fydd yr ystadegau hyn a'r gwaith ymchwil a wneir yn galluogi i ddisgyblion unigol gael eu hadnabod yn gyhoeddus ac ni chaiff yr wybodaeth ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill.

Dyletswyddau Statudol

12. Mae'r adran hon yn amlinellu dyletswyddau statudol awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â chasglu gwybodaeth am gefndir ethnig disgyblion a chyflwyno adroddiadau ar sail yr wybodaeth honno.

13. Mae adran 29 Deddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod addysg lleol roi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid i'r awdurdod addysg lleol gyflwyno adroddiadau a datganiadau a rhoi'r gyfryw wybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y bo'n ofynnol. Rhaid i awdurdodau addysg lleol hefyd gasglu gwybodaeth er mwyn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru am addysg gynradd ac uwchradd yn ardal pob awdurdod addysg lleol.

14. Ceir darpariaeth yn adran 537A o Ddeddf 1996 y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ddarparu gwybodaeth. Pennir yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 [O.S. 2007/3562], fel y'u diwygiwyd, yn Rhan 1 o Atodlen 2, y materion hynny y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ddarparu gwybodaeth yn eu cylch os derbynnir cais am yr wybodaeth honno, a hynny o fewn 14 diwrnod i'r awdurdod addysg lleol. Cyfeiria Rhan 1, paragraff 1(g), at grŵp ethnig disgybl tra bo Rhan 1, paragraff 1(h), yn cyfeirio at hunaniaeth genedlaethol disgybl. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn yn cael ei chasglu ar hyn o bryd drwy broses electronig CYBLD.

15. Mae adran 538 o Ddeddf 1996 hefyd yn darparu bod yn rhaid i gyrrff llywodraethu lunio'r cyfryw adroddiadau, datganiadau a gwybodaeth ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y bo'n ofynnol er mwyn cyflawni swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud ag addysg.

16. O dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000), mae dyletswydd gyfreithiol gyffredinol ar awdurdodau addysg lleol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Golyga'r ddyletswydd hon ei bod yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal

a chysylltiadau da rhwng disgyblion o wahanol grwpiau hiliol. Yn ôl y Ddeddf mae dyletswydd gyfreithiol benodol ar awdurdodau addysg lleol i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol sy'n rhoi manylion ynghylch sut y mae pob awdurdod yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a bod trefniadau yn bodoli i alluogi ysgolion i:

- i. asesu effaith eu polisiau ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau hiliol;
- ii. monitro gweithredu eu polisiau a;
- iii. asesu neu fonitro effaith eu polisiau ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion. Mae dyletswyddau penodol hefyd yn cael eu gosod ar ysgolion i lunio datganiad ysgrifenedig ynghylch eu polisiau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol o dan yr enw 'polisi cydraddoldeb hiliol'. Cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol yw asesu a monitro a yw ei ysgolion wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn. I gael tystiolaeth eu bod wedi cydymffurfio, dylai awdurdodau addysg lleol gasglu data perthnasol a'u cofnodi.

Y Newidiadau i'r Categoriâu ar gyfer Cefndir Ethnig

17. Mae meddalwedd ysgolion yn cynnig categorïau ar gyfer cefndir ethnig sydd wedi'u rhannu'n brif gategoriâu ac is-gategoriâu (categoriâu estynedig). Mae fersiynau diweddaraf meddalwedd yr ysgolion ar gyfer CYBLD 2010 yn cynnwys newidiadau i'r prif gategoriâu a'r categorïau estynedig. Mae'r categorïau diwygiedig wedi'i rhestru yn Atodiad A.

18. Mae'r prif gategoriâu 'Teithwyr o Dras Wyddelig' a 'Sipsi/Roma' wedi'u disodli gan 'Teithiwr' a 'Sipsi/Sipsi Roma'.

19. Mae'r categorïau estynedig canlynol hefyd wedi'u cyflwyno o dan y prif gategori ar gyfer Teithiwr:

- Teithiwr o Dras Wyddelig;
- Teithiwr Newydd;
- Teithiwr Galwedigaethol;
- Teithiwr arall.

20. Mae'r categorïau estynedig canlynol hefyd wedi'u cyflwyno o dan y prif gategori ar gyfer Sipsi/Sipsi Roma:

- Sipsi Prydeinig/Sipsi Roma;
- Sipsi/Sipsi Roma o wledydd eraill;
- Sipsi/Sipsi Roma arall.

21. Mae dau gategori estynedig wedi'u dileu oherwydd y cafodd nifer o ddewisiadau ethnig mwy penodol eu cynnwys:

- Gwyn Dwyrain Ewrop;
- Gwyn Gorllewin Ewrop.

22. Mae un categori estynedig wedi'i ddiwygio er mwyn cael mwy o eglurder. Mae 'Lladin Americanaidd' wedi'i ddisodli bellach gan:

- Americanaidd - Lladin/De/Canolbarth

23. O fewn yr awdurdodau addysg lleol hynny lle nad yw ond y prif gategoriâu ar gael i'w hysgolion, argymhellir yn daer eu bod yn sicrhau bod y categorïau estynedig ar gael ar gyfer y

flwyddyn academaidd 2009-10 ymlaen am yr holl resymau a nodir yn y canllawiau hyn ynghylch dyletswyddau statudol AALLau; y manteision o gael data ethnig-benodol wrth gefnogi disgyblion ac er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo data petai disgybl yn symud ysgol.

Gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer penderfynu ar gefnir ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion

24. Nid ydynt yn wahanol iawn i'r canllawiau a nodwyd yng Nghylchlythyr 27/02 ynghylch prosesau a gweithdrefnau. Dylai awdurdodau addysg lleol ac ysgolion nodi fodd bynnag mai'r cylchlythyr newydd hwn sy'n cynnig y canllawiau safonol i'w dilyn o fis Ionawr 2010 ymlaen. Er hynny, rhoddir canllawiau hefyd ar y gweithdrefnau i'w dilyn a'r camau i'w cymryd yn ystod y cyfnod o drawsnewid rhwng cyhoeddi'r cylchlythyr hwn a chynnal CYBLD 2010. Mae Rhestr Gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad E.

Y trefniadau yn 2009 o ddyddiad y Cylchlythyr hwn ymlaen

25. Amlinella'r adran hon, yn gryno, y camau i'w cymryd yn 2009 sef y cyfnod trosiannol. Rhaid ei darllen ar y cyd â'r canllawiau yn y 'Trefniadau Cyffredinol' ym mharagraffau 35 i 51 lle manylir ar y gweithdrefnau i'w dilyn fel mater o drefn. Yn sgil cyflwyno categorïau estynedig diwygiedig ar gyfer ethnigrwydd a'r newidiadau i'r prif categorïau ar gyfer disgyblion Sipsiwn a Theithwyr, bydd gofyniad penodol i ysgolion fynd ati i gynnal ailrolwg o bob disgybl ar gofrestr yr ysgol yn 2009 yn unol â'r categorïau diwygiedig.

Disgyblion Newydd

26. Taer anogir ysgolion i ddefnyddio'r categorïau estynedig diwygiedig ar gyfer ethnigrwydd, ynghyd â'r categorïau newydd ar gyfer plant Sipsiwn a Theithwyr a nodir yn Atodiad A, mewn perthynas â disgyblion newydd sy'n ymuno â system yr ysgol ar unwaith. (Fe'u gwelir ar ôl y canllawiau ar y gweithdrefnau i'w defnyddio o baragraff 31 ymlaen.)

Arolwg Ailgoladu Llawn o'r Ysgol ar gyfer Disgyblion sydd eisoes ar y Gofrestr yn 2009

27. Bydd angen i ysgolion ailgoladu'r data sydd ganddynt am gefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion sydd eisoes ar y gofrestr drwy gynnal arolygon llawn o ysgolion mewn da bryd ar gyfer cynnal CYBLD 2010. Nid yw hunaniaeth genedlaethol yr un peth â chefnidir ethnig a bydd llawer o bobl yn dewis hunaniaeth genedlaethol sy'n wahanol i'r categorïau ar gyfer cefndir ethnig. Mae'r gwahaniaeth yn caniatáu i ddisgyblion nodi eu hethnigrwydd a hefyd eu hymdeimlad o berthyn i hunaniaeth genedlaethol arbennig. Ni newidiwyd y categorïau ar gyfer hunaniaeth genedlaethol.

28. Yn achos disgyblion sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol, nid oes unrhyw ffordd o wybod, o'r ffordd yr aeth unigolion ati i ddosbarthu eu hunain ar sail categorïau blaenorol ar gyfer monitro cefndir ethnig yn unig, sut y byddent wedi dosbarthu eu hunain ar sail y rhestr newydd o categorïau - dim ond yr

unigolion eu hunain all benderfynu hynny. Mae'n dilyn felly, nad oes unrhyw ffordd o drosi'n fecanyddol yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch disgyblion i'r drefn newydd er, ar yr olwg gyntaf, bod llawer o'r categorïau yn ymddangos fel pe baent yr un fath.

29. Felly bydd angen i bob ysgol gasglu gwybodaeth ar gyfer pob disgybl ar sail Atodiad A gan sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chasglu mewn da bryd ar gyfer CYBLD 2010. Ar gyfer disgyblion sydd ar y gofrestr, ac eithrio'r disgyblion hynny y mae data am ethnigrwydd eisoes wedi'u casglu ar eu cyfer ar sail y categorïau estynedig, dyma'r camau i'w dilyn:

- dylai'r ysgol anfon at rieni a'r rheini â chyfrifoldeb rhieni y Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig (Atodiad A), yr Hysbysiad Preifatrwydd os yw'n briodol (Atodiad C) a'r llythyr esboniadol (Atodiad B, llythyr 2);
- argymhellir y dylai'r llythyr a'r ffurflen gael eu hanfon i'r cartref, naill ai:
 - a. gan y disgybl, i'w dychwelyd, ar ôl ei chwblhau, at y pennaeth neu i swyddfa'r ysgol; neu
 - b. yn rhan o ohebiaeth o'r ysgol;
- os na chaiff y ffurflen ei llenwi a'i dychwelyd i'r ysgol cyn pen mis, dylai'r ysgol gofnodi cefndir ethnig ar gyfer y disgybl. Dylid felly anfon llythyr 3 yn Atodiad B at y rhieni a'r rheini â chyfrifoldeb rhieni. Llo bo'r ysgol wedi mynd ati i briodoli cefndir ethnig disgybl, dylai'r ysgol gofnodi hynny ar gofnod y disgybl dan sylw;
- lle bo'n rhaid i ysgol briodoli cefndir ethnig, dylai unrhyw wybodaeth a roddwyd yn y gorffennol gan rieni gael ei defnyddio fel sail i benderfyniad yr ysgol, yn ogystal â gwybodaeth yr athro dosbarth am y disgybl.

30. Bydd angen i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion gytuno ar amserlen i gwblhau'r gwaith o gasglu data am hunaniaeth genedlaethol a chefndir ethnig disgyblion mewn da bryd ar gyfer CYBLD 2010. Awgrymir bod y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 1 Tachwedd 2009 fan bellaf.

Trefniadau Cyffredinol a ddylai fod mewn grym

Pa ddata y dylid eu casglu a phryd

31. Dylai ysgolion:

- gasglu data am gefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion, gan ddefnyddio'r categorïau a nodir yn y canllawiau hyn;
- dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau ar gyfer casglu'r data hyn.

Pryd y dylid casglu'r wybodaeth hon

32. Dylid casglu'r wybodaeth hon o dan yr amgylchiadau canlynol:

- bob blwyddyn, ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pryd y bydd y disgybl yn 5 oed, ar gyfer pob disgybl newydd sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd. Lle bo disgybl yn dechrau'r ysgol wedi ei bumed pen-blwydd, dylid casglu'r wybodaeth pan fydd yn dechrau'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ysgolion sydd â dosbarthiadau meithrin yn ei chael hi'n fwy hwylus casglu'r wybodaeth pan fydd y disgybl yn ymuno â'r dosbarth meithrin, os mai dyna pryd y ceir y cyswllt mwyaf gyda rhieni;
- ar gyfer disgyblion dros 5 oed, pryd bynnag y maent yn trosglwyddo o ysgol annibynnol neu o ysgol y tu allan i Gymru;
- neu ar gyfer disgyblion dros 5 oed, pryd bynnag y maent yn trosglwyddo o ysgol arall a gynhelir lle nad yw'r data ar gael ar y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin neu lle defnyddir categori na chaiff mo'i ddefnyddio gan yr ysgol sy'n derbyn y disgybl.

33. Lle bo disgyblion yn trosglwyddo o ysgol arall a gynhelir, dylid cyflwyno'r wybodaeth, os yw ar gael, gan yr ysgol flaenorol yn hytrach na mynd ati i ailgasglu'r wybodaeth.

Cael gwybodaeth gan rieni

Ar gyfer disgyblion sy'n ymuno â'r system ysgol

34. Fel y nodir uchod, dylai ysgolion gasglu data am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig disgyblion newydd sy'n cychwyn mewn ysgolion cynradd - ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd

y disgybl yn 5 oed ac ar gyfer unrhyw ddisgybl newydd a fydd yn ymuno â'r system ysgolion a gynhelir pan fyddant yn h n na hynny. Dylai ysgolion ddilyn y weithdrefn isod:

- Dim ond ar ôl i'r rhieni gael cadarnhad bod lle i'w plentyn yn yr ysgol y dylai ysgolion gasglu gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig y disgybl. Ni ddylid gofyn am wybodaeth o'r fath yn ystod y broses dderbyn;
- Lle bynnag y bo modd, dylid cael yr wybodaeth hon yn ystod y cyfarfod gyda rhieni ar gyfer disgyblion newydd ond ni ddisgwylir i ysgolion drefnu cyfarfod arbennig gyda rhieni er mwyn cael yr wybodaeth hon yn unig.

35. Lle cynhelir cyfarfod gyda rhieni, dyma'r pwyntiau allweddol y dylai athro egluro i'r rhieni

- mae'n ofynnol i'r ysgol gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yr wybodaeth y mae wedi'i chasglu am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig ei disgyblion. Nid oes gorfodaeth ar rieni i ddarparu'r wybodaeth hon, ond gobeithir y byddant yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny;
- defnyddir unrhyw wybodaeth y bydd rhieni yn ei darparu er mwyn casglu ystadegau ar yrfa ysgol a chyflawniadau plant o wahanol gefndiroedd ethnig ac at ddibenion gwaith ymchwil yn y maes yn unig, a hynny er mwyn helpu i sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial;
- ni fydd yr ystadegau hyn a'r gwaith ymchwil hwn yn caniatáu i blentyn allu cael ei adnabod yn gyhoeddus, ac ni ddefnyddir yr wybodaeth at unrhyw bwrpas arall;
- lle bo'n bosibl, bydd yr ysgol yn trosglwyddo'r wybodaeth ynghyd â chofnodion y plentyn i unrhyw ysgol arall y bydd y plentyn yn symud iddi, gan gynnwys o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd - i arbed gorfod gofyn i'r rhieni amdani eto lle bo modd.
- rhoddir yr wybodaeth i'r awdurdod addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at lunio ystadegau lleol a chenedlaethol a gwaith ymchwil yn y maes a bydd yn galluogi'r sefydliadau uchod i gadw llygad ar dueddiadau a gwneud cymariaethau. Nid canolbwyntio ar ysgolion unigol a disgyblion unigol yn yr ysgolion hynny fydd y nod.

36. Dylid rhoi'r ffurflen sydd yn Atodiad A i'r rhieni a'u gwahodd i ddarllen y disgrifiadau ar gyfer 'hunaniaeth genedlaethol' ac ar gyfer 'cefndir ethnig', a thicio'r blychau priodol. Gallai ysgolion fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ganiatáu i rieni weld eu Hysbysiad Preifatrwydd: Yr Hyn y Mae'r Ysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Llywodraeth yn ei wneud â'r Wybodaeth y maent yn ei Chadw am Ddisgyblion' er mwyn iddynt ddeall yn well yr wybodaeth y bydd yr ysgol yn ei chadw yn eu cofnodion ynghylch eu plentyn. Mae'r templed safonol ar gyfer yr Hysbysiad Preifatrwydd a gaiff ei ddefnyddio neu ei addasu gan ysgolion i'w weld yn Atodiad C a chyfeirir ato yn y ffurflen yn Atodiad A.

37. I rai pobl gan gynnwys Sipsiwn-Teithwyr, gall monitro ethnig arwain at godi materion sensitif eu natur. Fel yn achos data personol eraill sy'n sensitif eu natur, ni ddylai rhieni neu ddisgyblion sy'n pryderu, megis y bobl hynny sy'n 'Deithwyr' yn yr ystyr generig, gael eu gorfodi i roi'r wybodaeth hon. Yn y cyfarfod gyda rhieni, pe yddai athrawon yn canfod pryderon o'r fath, dylent eu cydnabod yn sensitif, gan wneud datganiad clir a phositif am y ffordd y caiff y cyfryw ddata eu defnyddio ar hyn o bryd. Gallai rhieni gael cymorth, er enghraifft gan Wasanaethau Addysg i Deithwyr awdurdodau addysg lleol, er mwyn darparu gwybodaeth o'r fath. Mae'n bosibl y gall cydweithwyr tebyg gynorthwyo ysgolion wrth roi sicrwydd i rieni mai at ddibenion cefnogi anghenion dysgu eu disgyblion a sicrhau y byddant yn elwa ar yr addysg mae ganddynt hawl i'w derbyn yn unig y defnyddir y data. Mae'n bosibl y bydd hyn yn fodd i leddfu pryderon rhieni ynglŷn â llenwi'r ffurflen.

38. Wrth gysylltu a gohebu â rhieni, dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y ffurflenni a'r llythyron mor eglur â phosibl. Dylent ddefnyddio Cymraeg a Saesneg clir a defnyddio fformat hawdd ei ddeall, gan o bosibl ddefnyddio ffont gweddol fawr er enghraifft. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gall fod rhai achosion - er enghraifft, unigolion sy'n dioddef o ddyslecsia, unigolion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu unigolion sydd â phroblemau llythrennedd am na fuont yn rhan o'r gyfundrefn addysg brif ffrwd ffurfiol - lle bydd rhai, o bosibl, yn cael trafferth i ddeall a llenwi'r Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Cefndir Ethnig. O dan amgylchiadau o'r fath,

dyla pa gymorth bynnag a dybir yn briodol cael ei ystyried a'i gynnig a hynny'n sensitif.

39. Efallai y gwêl athrawon, yn ystod eu cyfarfod gyda rhieni, bod rhai rhieni yn cael trafferth i ddarllen y ffurflen. O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd athrawon am gynnig cymorth, trwy gynnig mynd trwy'r ffurflen gyda'r rhieni efallai. Fodd bynnag dylai'r awdurdod addysg lleol fedru rhoi gwybod i ysgolion am fanylion cyswllt sefydliadau a all gynorthwyo rhieni.

40. Os nad oes cyfle i gael yr wybodaeth trwy gynnal cyfarfod, dylai'r ysgol ysgrifennu at y rhieni yn lle hynny gan anfon atynt y llythyr enghreifftiol (llythyr 1 yn Atodiad B) a chopi o'r Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig (Atodiad A) ynghyd â'r Hysbysiad Preifatrwydd (Atodiad C) os yw'n briodol. Os na dderbynnir ateb dylai'r ysgolion ystyried rhesymau posibl i esbonio hyn, er enghraifft, a oedd y llythyr wedi'i lunio mewn fformat hawdd ei ddeall, ac a fydd angen ystyried gwneud trefniadau eraill. Os na cheir unrhyw ymateb i'r camau ychwanegol hyn, gellir cymryd y bydd hyn yn awgrymu bod y rhieni yn barod i'r ysgol briodoli'r wybodaeth hon. Yn dilyn hyn, felly, dylai llythyr (llythyr 3 yn Atodiad B) gael ei anfon at y rhieni. Am fanylion pellach ynghylch y broses briodoli gan yr ysgol a'r amgylchiadau pryd y dylai ysgol briodoli cefndir ethnig i ddisgybl, gan gynnwys disgyblion sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol, gweler isod.

Swyddogaeth rhieni/oedolion sydd â chyfrifoldeb fel rhieni i benderfynu ar hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig

41. Argymhellir y dylai'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni benderfynu beth yw hunaniaeth genedlaethol a chefnir ethnig disgyblion mewn ysgolion cynradd.

42. Rhoddodd y Comisiynydd Gwybodaeth gyngor bod disgyblion 12 i 15 oed, yn ddigon aeddfed i benderfynu drostynt eu hunain beth yw eu hunaniaeth genedlaethol a'u cefndir ethnig. Argymhellir mai'r ffordd orau fyddai i benderfyniadau ynghylch hunaniaeth genedlaethol ac ethnig disgyblion rhwng 12 a 15 oed gael eu gwneud gyda chefnogaeth a gwybodaeth rhiant (rhieni) neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni, mewn cyd-destun teuluol.

43. Dylid derbyn penderfyniad disgybl 12-15 oed, sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na phenderfyniad yr awdurdod.

44. Cyngor y Comisiynydd Gwybodaeth yw y dylai disgyblion 16 oed a throsodd wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Derbyn ymatebion

45. Rhaid i ysgolion dderbyn ymatebion a ddarperir gan rieni neu ddisgyblion. Mae hunaniaeth genedlaethol a chefnir ethnig disgybl yn bersonol i'r disgybl hwnnw. Rhaid i ysgolion felly dderbyn yr ymateb gan y rhieni neu'r disgybl, p'un ai a yw'n cyd-fynd â'u syniadau hwy ai peidio.

Amharodrwydd i roi gwybodaeth

46. Mewn cyfarfod rhwng yr athro a'r rhieni, os yw'r rhieni yn amharod i ddarparu gwybodaeth, dylid eu hannog i wneud hynny ond ni ddylid rhoi pwysau arnynt. Os yw'r rhieni yn ansicr, dylid eu gwahodd i ddychwelyd y ffurflen yn ddiweddarach.

Yr hawl i wrthod darparu data

47. Ystyrir data am gefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol yn ddata personol sensitif ac mae gan unrhyw riant neu ddisgybl yr hawl i wrthod eu darparu. Os yw rhiant neu ddisgybl wedi gwrthod darparu'r wybodaeth hon, trwy dicio'r blychau priodol ar y Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefnir Ethnig, ni ddylai ysgolion gofnodi hunaniaeth genedlaethol neu gefndir ethnig i'r disgybl hwnnw. Mae categori ar gael ym meddalwedd MIS ysgolion sy'n adlewyrchu'r ffaith y gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth.

Mynediad gan rieni, y rheini sydd â chyfrifoldeb fel rhieni a disgyblion i ddata personol sensitif a gedwir yn yr ysgol

48. Mae hawl gan rieni, y rheini sydd â chyfrifoldeb fel rhieni am y disgybl a'r disgybl (gwrthrych y data), gael gweld eu ffeiliau personol, gan gynnwys data am hunaniaeth genedlaethol a chefnir ethnig a gedwir gan yr ysgol ar y disgybl. Mae ganddynt hawl hefyd i ofyn i'r data am hunaniaeth genedlaethol a chefnir ethnig gael eu diwygio neu eu dileu.

Priodoli

49. Er bod gan rieni yr hawl i wrthod darparu data am gefndir ethnig, nid yw peidio ag ymateb i llythyr 1 yn Atodiad B yn gyfystyr â gwrthod rhoi'r data hynny. Lle nad yw rhieni wedi ymateb i'r llythyr sy'n gofyn am ddata cyn pen pedair wythnos, gall yr ysgol wedyn fynd ati i briodoli cefndir ethnig i'r disgybl hyd eithaf ei gallu. (Argymhellir hyn er mwyn sicrhau bod monitro ethnig yn seiliedig ar ddata cynhwysfawr.) Lle bo angen i'r ysgol briodoli cefndir ethnig disgybl, rhaid i hyn gael ei wneud gan yr aelod o'r staff sy'n adnabod y disgybl orau (yr athro dosbarth fwy na thebyg), sydd felly yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad cywiraf posibl. Mae Atodiad D yn egluro'r wybodaeth i'w chynnwys ar gofnodion disgyblion i nodi ffynhonnell yr wybodaeth, gan gynnwys y priodoliad a wnaed gan yr ysgol. Wrth briodoli cefndir ethnig, rhaid cydymffurfio â'r camau diogelu canlynol er mwyn sicrhau bod y broses yn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a rhaid i ysgolion ddilyn y camau gweithredu a amlinellir isod:

- rhaid anfon llythyr (Atodiad B llythyr 1) at rieni a'r rheini â chyfrifoldeb rhieni, yn gofyn iddynt ddychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi cyn pen pedair wythnos. Mae'r llythyr yn egluro, os na cheir ymateb gan y rhieni, y bydd yr ysgol yn nodi hyd eithaf ei gallu gefndir ethnig y disgybl dan sylw;
- rhaid i'r llythyr ddweud wrth rieni fod ganddynt yr hawl i wrthod darparu'r wybodaeth hon **ond** bod yn rhaid iddynt hysbysu'r ysgol yn ffurfiol eu bod yn gwrthod;
- rhaid i rieni gael gwybod bod ganddynt yr hawl, ar ran eu plentyn, i weld, diwygio neu ddileu'r cofnod o hunaniaeth genedlaethol neu gefndir ethnig a gedwir gan yr ysgol.

Bydd dilyn y camau hyn yn sicrhau bod gan ysgolion bolisi cyson ar briodoli a fydd yn berthnasol i bob disgybl.

50. Mae'r llythyr enghreifftiol (Atodiad B llythyr 1) yn egluro'r broses o briodoli i rieni a'r rheini sydd â chyfrifoldeb fel rhieni ac mae'n amlinellu o dan ba amgylchiadau y bydd yn digwydd. Dylid anfon y trydydd llythyr enghreifftiol (Atodiad B llythyr 3) fis ar ôl y llythyr cyntaf, ond dim ond at rieni a'r rheini â chyfrifoldeb

fel rhieni sydd heb ddychwelyd y Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig. Mae'r llythyr hwn yn nodi bod yr ysgol wedi cofnodi cefndir ethnig ar gyfer y disgybl. Fodd bynnag, mae'r llythyr hefyd yn pwysleisio y gall y rhiant neu'r disgybl weld yr wybodaeth hon unrhyw bryd ac y gallant ei diwygio neu ei dileu.

Hunaniaeth Genedlaethol

51. Ni ddylai ysgolion briodoli hunaniaeth genedlaethol ar gyfer disgybl o dan unrhyw amgylchiadau. Lle nad yw'r rhieni neu'r disgybl yn ymateb i'r ceisiadau am yr wybodaeth hon yna dylid nodi hynny fel achos lle penderfynodd y rhieni neu'r disgybl beidio â chofnodi hunaniaeth genedlaethol.

Darparu llythyron i rieni a'r Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg

52. Mae copïau o'r Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig a welir yn Atodiad A a'r tri llythyr at rieni yn Atodiad B ar gael yn yr ieithoedd canlynol:

Arabeg	Panjabeg
Bengaleg	Somalieg
Cantoneg	Wrddw
Gwjarati	Pwyleg

Gellir cael copïau o'r ffurflen a'r llythyron hyn yn yr ieithoedd uchod gan:

Benjamin Graham-Woollard
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ.

Ffôn: 029 2082 1745

E-bost: DCELLS.SupportforLearnersDivision4@wales.gsi.gov.uk

Atodiad A

Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Cefndir Ethnig

Enw'r Disgybl: _____

Dosbarth: _____

Mae'r ffurflen hon yn gofyn am y data canlynol am y disgybl a enwir uchod:

- hunaniaeth genedlaethol y disgybl;
- cefndir ethnig y disgybl.

Nodyn esboniadol

Hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig

Mae ein hunaniaeth genedlaethol yn ymwneud â pha un o'r grwpiau drosodd ar gyfer hunaniaeth genedlaethol yr ydym yn uniaethu ag ef fwyaf. Mae ein cefndir ethnig yn disgrifio'r ffordd yr ydym yn meddwl amdanom ein hunain a gall fod yn wahanol i'n hunaniaeth genedlaethol. Gall fod yn seiliedig ar lawer o bethau, gan gynnwys, er enghraifft, lliw ein croen, iaith, diwylliant, tras neu hanes teuluol. Nid yw hunaniaeth genedlaethol na chefnidir ethnig yn cyfateb o reidrwydd i genedligrwydd na gwlad eich geni.

Rhoddodd y Comisiynydd Gwybodaeth gyngor bod disgyblion 12 i 15 oed, yn ddigon aeddfed i benderfynu drostynt eu hunain beth yw eu hunaniaeth genedlaethol a'u cefndir ethnig. Argymhellir mai'r ffordd orau fyddai i benderfyniadau ynghylch hunaniaeth genedlaethol ac ethnig disgyblion rhwng 12 a 15 oed gael eu gwneud gyda chefnogaeth a gwybodaeth y rheini sydd â chyfrifoldeb fel rhieni, mewn cyd-destun teuluol. Cyngor y Comisiynydd Gwybodaeth yw y dylai disgyblion 16 oed a throsodd wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Astudiwch y ddwy adran o'r ffurflen dros y dudalen, adran A ac adran B, a thiciwch **un blwch yn unig** ym mhob adran, i nodi hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig y disgybl a enwir uchod. Hefyd, ticiwch i ddangos ai rhiant neu ddisgybl a lenwodd y ffurflen.

Dychwelwch y ffurflen i'r ysgol cyn pen pedair wythnos, naill ai trwy'r post at y Pennaeth, neu trwy fynd â hi i swyddfa'r ysgol.

Caiff y data y gofynnir amdanynt eu storio ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a chânt eu defnyddio at y dibenion a nodir yn ein Hysbysiad Preifatrwydd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch y data personol a gedwir gan yr ysgol. Mae gan unigolion hawliau penodol i weld gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdanynt hwy eu hunain. Fe'u hamlinellir yn ein taflen sef: 'Yr Hyn y Mae'r Ysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Llywodraeth yn ei wneud â'r Wybodaeth y maent yn ei Chadw am Ddisgyblion'. Gellir cysylltu â **xxx** i ofyn am gopiau o'r ddogfen neu gallwch fynd i'n gwefan **xxx**.

Atodiad A

Adran A: Hunaniaeth Genedlaethol

Ticiwch UN blwch yn unig a nodwch isod pwy a roddodd yr wybodaeth (disgybl neu riant)

Cymreig

Seisnig

Albanaidd

Gwyddelig

Prydeinig

Arall (Noder os gwelwch yn dda): _____

Nid wyf yn dymuno cofnodi fy hunaniaeth genedlaethol

Darparwyd yr wybodaeth hon gan:

Rhiant Disgybl

Adran B: Cefndir Ethnig (categoriâu estynedig)

Ticiwch UN blwch yn unig a nodwch isod pwy a roddodd yr wybodaeth (disgybl neu riant)

a Gwyn			
Gwyn - Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Kosofanaidd	<input type="checkbox"/>
Teithiwr o Dras Wyddelig	<input type="checkbox"/>	Latfiaidd	<input type="checkbox"/>
Teithiwr 'Newydd'	<input type="checkbox"/>	Lithwanaidd	<input type="checkbox"/>
Teithiwr Galwedigaethol	<input type="checkbox"/>	Maltaidd	<input type="checkbox"/>
Teithiwr Arall	<input type="checkbox"/>	Montenegroaidd	<input type="checkbox"/>
Sipsi/Sipsi Roma Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Pwylaidd	<input type="checkbox"/>
Sipsi/Sipsi Roma o Wledydd Eraill	<input type="checkbox"/>	Portiwgeaidd	<input type="checkbox"/>
Sipsi/Sipsi Roma Arall	<input type="checkbox"/>	Romanaidd	<input type="checkbox"/>
Albaniaidd	<input type="checkbox"/>	Rwsiaidd	<input type="checkbox"/>
Bosniaidd-Herzegovinaidd	<input type="checkbox"/>	Sgandinafaidd	<input type="checkbox"/>
Bwlgaraidd	<input type="checkbox"/>	Serbiaidd	<input type="checkbox"/>
Croataidd	<input type="checkbox"/>	Slofacaidd	<input type="checkbox"/>
Tsiecaidd	<input type="checkbox"/>	Slofenaidd	<input type="checkbox"/>
Ffrengig	<input type="checkbox"/>	Sbaenaidd	<input type="checkbox"/>
Almaenig	<input type="checkbox"/>	Twrciaidd/Cypraid Twrciaidd	<input type="checkbox"/>
Groegaidd/Cypraid Groegaidd	<input type="checkbox"/>	Wcrainiaidd	<input type="checkbox"/>
Hwngaraidd	<input type="checkbox"/>	Ewropeaidd Gwyn Arall	<input type="checkbox"/>
Eidalaidd	<input type="checkbox"/>	Gwyn arall	<input type="checkbox"/>

b Cymysg		c Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd	
Gwyn a Charibäidd Du	<input type="checkbox"/>	Indiaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyn ac Affricanaidd Du	<input type="checkbox"/>	Pacistanaidd Mirpuri	<input type="checkbox"/>
Gwyn ac Asiaidd	<input type="checkbox"/>	Pacistanaidd arall	<input type="checkbox"/>
Gwyn a Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>	Bangladeshi	<input type="checkbox"/>
Gwyn ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	<input type="checkbox"/>	Asiaidd Affricanaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd a Du	<input type="checkbox"/>	Kashmiraidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd a Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>	Nepalaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd ac unrhyw Grŵp Ethnig Arall	<input type="checkbox"/>	Sinhalesaidd	<input type="checkbox"/>
Du a Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>	Tamil Sri Lankaidd	<input type="checkbox"/>
Du ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	<input type="checkbox"/>	Asiaidd Arall	<input type="checkbox"/>
Tsieineaidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	<input type="checkbox"/>		
Cefndir Cymysg Arall	<input type="checkbox"/>		

d Du neu Brydeinig Du		e Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd	
Caribiaidd	<input type="checkbox"/>	Tsieineaidd Hong Kong	<input type="checkbox"/>
Ghanaidd	<input type="checkbox"/>	Tsieineaidd Malaysiaidd	<input type="checkbox"/>
Nigeraidd	<input type="checkbox"/>	Tsieineaidd Singaporaidd	<input type="checkbox"/>
Sierra Leonaidd	<input type="checkbox"/>	Taiwaneiaidd	<input type="checkbox"/>
Somalaidd	<input type="checkbox"/>	Tsieineaidd Arall	<input type="checkbox"/>
Sudaneaidd	<input type="checkbox"/>		
Affricanaidd Du Arall	<input type="checkbox"/>		
Ewropeaidd Du	<input type="checkbox"/>		
Du Gogledd America	<input type="checkbox"/>		
Du Arall	<input type="checkbox"/>		

f Unrhyw gefndir ethnig arall			
Afganistanaidd	<input type="checkbox"/>	Libyaidd	<input type="checkbox"/>
Arabaid	<input type="checkbox"/>	Lebaneaidd	<input type="checkbox"/>
Eifftaidd	<input type="checkbox"/>	Malaiaidd	<input type="checkbox"/>
Ffilipinaidd	<input type="checkbox"/>	Morocaid	<input type="checkbox"/>
Iranaidd	<input type="checkbox"/>	Polyneiaidd	<input type="checkbox"/>
Iracaid	<input type="checkbox"/>	Thai	<input type="checkbox"/>
Siapaneaidd	<input type="checkbox"/>	Fietnamaidd	<input type="checkbox"/>
Coreaid	<input type="checkbox"/>	Yemenaiddi	<input type="checkbox"/>
Cwrdaidd	<input type="checkbox"/>	Grŵp Ethnig Arall	<input type="checkbox"/>
Americanaidd Lladin/De/Canolbarth	<input type="checkbox"/>		

Nid wyf yn dymuno cofnodi fy nghefndir ethnig

Darparwyd yr wybodaeth hon gan:

Rhiant

Disgybl

Atodiad B

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys tri llythyr at rieni:

Llythyr 1 - Dylid anfon y llythyr cyntaf ynghyd â'r ffurflen yn Atodiad A at rieni disgyblion newydd nad ydynt wedi llenwi Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig mewn cyfarfod yn yr ysgol. Dylai'r Hysbysiad Preifatrwydd (Atodiad C) gael ei anfon at rieni hefyd os nad ydynt wedi gweld copi eisoes.

Llythyr 2 - gyfer yr ailrolwg yn 2009, dylai'r llythyr hwn a'r ffurflen yn Atodiad A gael eu hanfon at rieni pob disgybl sydd eisoes ar y gofrestr ac eithrio'r disgyblion hynny y mae data am ethnigrwydd eisoes wedi'u casglu'n ddiweddar yn seiliedig ar y categorïau estynedig. Dylai'r Hysbysiad Preifatrwydd (Atodiad C) gael ei anfon hefyd os nad yw'r rhieni wedi gweld copi eisoes. Byddant wedi rhoi gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol a chefndir ethnig y plentyn cyn bod y categorïau estynedig ar gael ac maent yn haeddu cael gweld y dewis ehangach ynghyd ag esboniad i egluro pam y mae gofyn iddynt ddarparu'r wybodaeth unwaith eto. Er na newidiwyd y categorïau ar gyfer hunaniaeth genedlaethol, gan eu bod wedi'u cynnwys yn y ffurflen, bydd gofyn i rieni nodi eto pa gategori a ddewiswyd ganddynt er mwyn cwblhau'r broses.

Llythyr 3 - Dylid anfon y trydydd llythyr ynghyd â'r ffurflen yn Atodiad A fis ar ôl y llythyr cyntaf at y rhieni hynny nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen. Bydd y llythyr hwn yn datgan bod cefndir ethnig wedi'i briodoli ar gyfer eu plentyn.

Dylid defnyddio papur â phennawd yr ysgol wrth baratoi'r llythyron er bod llythyr 1 a llythyr 2 yn datgan yn glir mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gofyn am y data.

Llythyron enghreifftiol at rieni

Llythyr enghreifftiol 1:

[Dyddiad]

Annwyl Riant

Casglu a Chofnodi Data am Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig Disgyblion

Amgaeaf ffurflen i chi ei llenwi am hunaniaeth genedlaethol a chefndir ethnig eich plentyn, gan y gofynnir i bob ysgol wneud hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darllenwch y disgrifiadau am "hunaniaeth genedlaethol" a "chefndir ethnig", yna ticiwch y blychau priodol ar y ffurflen. Dychwelwch y ffurflen ataf i yn yr amlen amgaeedig, neu gellwch ddod â hi i swyddfa'r ysgol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod disgyblion o bob cefndir ethnig yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyflawni eu potensial ymhob agwedd ar fywyd ysgol. Bydd yr wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn awr yn ein helpu i wireddu hynny. Gobeithiwn felly y byddwch yn teimlo y gallwch roi'r wybodaeth hon a llenwi'r ffurflen amgaeedig. Bydd y data a geir yn datblygu'r wybodaeth sydd gennym am ein disgyblion a'r cymunedau a wasanaethwn. Bydd hefyd yn ein helpu i gynllunio a diwallu anghenion dysgu disgyblion unigol ac yn ein helpu i sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi'r cyngor bod disgyblion 12-15 oed yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i benderfynu ynghylch eu hunaniaeth genedlaethol a'u cefndir ethnig eu hunain. Argymhellir y dylid gwneud y penderfyniad hwn gyda chefnogaeth a gwybodaeth rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb fel rhiant. Argymhellir y dylai disgyblion 16 oed a throsodd benderfynu drostynt eu hunain.

Defnyddir yr wybodaeth a roddir gennych i gasglu ystadegau am yrfa ysgol, profiadau a chyflawniadau disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig. Bydd yr ystadegau o help i dynnu sylw at unrhyw feysydd lle nad yw disgyblion o gefndiroedd ethnig arbennig yn gallu manteisio ar y cyfle i gyrraedd eu potensial. Bydd yn bosibl wedyn i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Bydd yr

ystadegau o help hefyd i dynnu sylw at arferion da, fel y gellir eu nodi a'u rhannu rhwng ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ledled Cymru.

Ni fydd yr ystadegau hyn yn caniatáu i blant unigol gael eu hadnabod yn gyhoeddus a dim ond at ddibenion ystadegol ac ymchwil y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio. Rhoddir yr wybodaeth i'r Awdurdod Addysg Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu at ystadegau lleol a chenedlaethol.

Lle bo modd, trosglwyddir gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig eich plentyn i unrhyw ysgol arall yng Nghymru y bydd eich plentyn yn symud iddi, er mwyn arbed gofyn i chi amdani eto.

Os nad ydych am nodi hunaniaeth genedlaethol a/neu gefndir ethnig eich plentyn, ticiwch y blwch neu'r blychau priodol ar y ffurflen amgaeedig.

Os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen hon, ni fydd hynny, ynddo'i hun, gyfystyr â gwrthod darparu'r wybodaeth. Os na fyddwch wedi dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi cyn pen pedair wythnos bydd yr ysgol yn asesu, a hynny hyd eithaf ei gallu, gefndir ethnig eich plentyn, gan nodi y daethpwyd i'r casgliad am yr wybodaeth yn y ffordd honno, yn hytrach na'i bod wedi'i darparu gennych chi. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu am y penderfyniad hwn a gellwch chi ofyn am i'r wybodaeth gael ei diwygio neu ei dileu, os dymunwch. Ni fydd yr ysgol, fodd bynnag, yn asesu hunaniaeth genedlaethol eich plentyn.

Gallwch ofyn am gael gwirio'r wybodaeth am eich plentyn unrhyw bryd ac, os dymunwch, gallwch newid neu ddileu'r hunaniaeth genedlaethol a/neu'r cefndir ethnig.

Yn gywir

[Enw'r Pennaeth]

Llythyr enghreifftiol 2:

[Dyddiad]

Annwyl Riant

Casglu a Chofnodi Data am Hunaniaeth Genedlaethol a Chefnidir Ethnig Disgyblion

Amgaeaf ffurflen i chi ei llenwi am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig eich plentyn, gan y gofynnir i bob ysgol wneud hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darllenwch y disgrifiadau am "hunaniaeth genedlaethol" a "chefnidir ethnig", yna ticiwch y blychau priodol ar y ffurflen. Dychwelwch y ffurflen ataf i yn yr amlen amgaeedig, neu gellwch ddod â hi i swyddfa'r ysgol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod disgyblion o bob cefnidir ethnig yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyflawni eu potensial ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Bydd yr wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn awr yn ein helpu i wireddu hynny. Gobeithiwn felly y byddwch yn teimlo y gallwch roi'r wybodaeth hon a llenwi'r ffurflen amgaeedig. Bydd y data a geir yn datblygu'r wybodaeth sydd gennym am ein disgyblion a'r cymunedau a wasanaethwn. Bydd hefyd yn ein helpu i gynllunio a diwallu anghenion dysgu disgyblion unigol a sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Rydym wedi gofyn i chi am gefnidir ethnig a hunaniaeth genedlaethol eich plentyn o'r blaen. Fodd bynnag, mae angen i ni wirio gyda rhieni eto, gan fod y categorïau ethnig a ddefnyddir ledled Cymru wedi newid. Mae'r ffurflen hon yn cyfeirio at hunaniaeth genedlaethol eich plentyn ac er nad ydyw'r dewisiadau sydd ar y ffurflen hon wedi eu newid o'r hyn oedd ar y ffurflen flaenorol, gofynnir i chi llenwi'r rhan honno o'r ffurflen eto er mwyn cwblhau'r broses. Bydd hyn yn helpu swyddfa'r ysgol wrth gofnodi manylion ar gofnodion y disgyblion.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi'r cyngor bod disgyblion 12-15 oed yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i benderfynu ynghylch eu hunaniaeth genedlaethol a'u cefnidir ethnig eu hunain. Argymhellir y dylid gwneud y penderfyniad hwn gyda chefnogaeth a gwybodaeth rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb fel rhiant. Argymhellir y dylai disgyblion 16 oed a throsodd benderfynu drostynt eu hunain.

Defnyddir yr wybodaeth a roddir gennych i gasglu ystadegau am yrfa ysgol, profiadau a chyflawniadau disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig. Bydd yr ystadegau o help i dynnu sylw at unrhyw feysydd lle nad yw disgyblion o gefndiroedd ethnig arbennig yn gallu manteisio ar y cyfle i gyrraedd eu potensial. Bydd yn bosibl wedyn i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Bydd yr ystadegau o help hefyd i dynnu sylw at arferion da, fel y gellir eu nodi a'u rhannu rhwng ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ledled Cymru

Ni fydd yr ystadegau hyn yn caniatáu i blant unigol gael eu hadnabod yn gyhoeddus a dim ond at ddibenion ystadegol ac ymchwil y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio. Rhoddir yr wybodaeth i'r Awdurdod Addysg Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu at ystadegau lleol a chenedlaethol.

Lle bo modd, trosglwyddir gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol a chefnidir ethnig eich plentyn i unrhyw ysgol arall yng Nghymru y bydd eich plentyn yn symud iddi, er mwyn arbed gofyn i chi amdani eto.

Os nad ydych am nodi hunaniaeth genedlaethol a/neu gefndir ethnig eich plentyn, ticiwch y blwch neu'r blychau priodol ar y ffurflen amgaeëdig.

Os na fyddwch yn dychwelyd y ffurflen hon, ni fydd hynny, ynddo'i hun, gyfystyr â gwrthod darparu'r wybodaeth. Os na fyddwch wedi dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi cyn pen pedair wythnos bydd yr ysgol yn asesu, a hynny mor ddoeth ag y gall, gefndir ethnig eich plentyn, gan nodi y daethpwyd i'r casgliad am yr wybodaeth yn y ffordd honno, yn hytrach na'i bod wedi'i darparu gennych chi. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu am y penderfyniad hwn a gellwch chi ofyn am i'r wybodaeth gael ei diwygio neu ei dileu, os dymunwch. Ni fydd yr ysgol, fodd bynnag, yn asesu hunaniaeth genedlaethol eich plentyn.

Gallwch ofyn am gael gwirio'r wybodaeth am eich plentyn unrhyw bryd ac, os dymunwch, gallwch newid neu ddileu'r hunaniaeth genedlaethol a/neu'r cefndir ethnig.

Diolch yn fawr am eich cymorth.

Yn gywir

[Enw'r Pennaeth]

Fis ar ôl derbyn y Ffurflen Cofnodi Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig, dylid anfon Llythyr 3 isod at y rhieni hynny sydd heb ymateb. Dylai copi arall o'r ffurflen gael ei gynnwys er hwylustod.

Llythyr enghreifftiol 3:

[Dyddiad]

Annwyl Riant

Casglu a Chofnodi Data am Hunaniaeth Genedlaethol a Chefndir Ethnig Disgyblion

Efallai y cofiwch i chi dderbyn llythyr gennym tua mis yn ôl, yn gofyn i chi lenwi ffurflen am hunaniaeth genedlaethol a chefndir ethnig eich plentyn, [enw'r plentyn]. Amgaeaf gopi arall o'r ffurflen ar eich cyfer. Nid ydym wedi derbyn ateb gennych, felly, fel y dywedwyd gennym yn ein llythyr blaenorol, rydym wedi penderfynu, a hynny hyd eithaf ein gallu, ar gefndir ethnig i'ch plentyn, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae [enw'r plentyn] wedi'i gofnodi fel [cefndir ethnig], gyda nodyn bod yr wybodaeth wedi'i rhoi gan yr ysgol yn hytrach na gennych chi. Ni wnaed unrhyw ymgais i gofnodi hunaniaeth genedlaethol ar gyfer eich plentyn.

Os ydych yn dymuno, gellwch newid neu ddileu'r cefndir ethnig hwn trwy ddychwelyd y ffurflen wreiddiol, neu ysgrifennu atom neu ymweld â ni yn yr ysgol.

Diolch yn fawr

Yn gywir

[Enw'r Pennaeth]

Atodiad C

Hysbysiad Preifatrwydd: Yr Hyn y Mae'r Ysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Llywodraeth yn ei wneud â'r Wybodaeth y maent yn ei Chadw am Ddisgyblion

Pwnc

Er mwyn bodloni anghenion Deddf Diogelu Data 1998, mae rheidrwydd ar ysgolion i roi Hysbysiad Preifatrwydd i ddisgyblion a/neu rieni sy'n crynhoi'r wybodaeth a gedwir am ddisgyblion, pam y mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ac i ba unigolion a chyrrff eraill y gellir trosglwyddo'r wybodaeth honno.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol a gwybodaeth am berfformiad y disgyblion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Addysg Lleol **XXXXX** (AALI) ac Ysgol **XXXXX**.

Casglu gwybodaeth bersonol

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol pan fyddant yn cofrestru yn yr ysgol. Mae'r ysgolion hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol. Derbynnir gwybodaeth hefyd gan ysgolion eraill pan fydd disgyblion yn symud o un ysgol i un arall.

Mae'r **Ysgol** yn prosesu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i ysgolion. Er enghraifft:

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd am gynnydd addysgol y disgyblion;
- darparu gwasanaethau iechyd, gofal bugeiliol a gwasanaethau lles;
- rhoi cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu teithiau a digwyddiadau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI)

Fel arfer mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion fel rhan o'r hyn a elwir y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (CYBLD). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon i wneud gwaith ymchwil (mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod y disgyblion) ac at ddibenion ystadegol, er mwyn llywio polisiau addysg, dylanwadu arnynt a'u gwella ac er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd. Er mwyn gweld enghreifftiau o'r ystadegau sy'n cael eu paratoi ewch at www.wales.gov.uk/statistics.

Mae'r awdurdod addysg lleol hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir drwy'r CYBLD ar gyfer gwneud gwaith ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn i wneud penderfyniadau ar bolisiau ac ariannu ysgolion, i edrych ar berfformiad ysgolion a'u helpu i osod targedau. Gwneir y gwaith ymchwil mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod y disgyblion.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau addysg lleol yn derbyn gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau Arholiadau Cyhoeddus a data am bresenoldeb ar lefel y disgyblion.

Yr wybodaeth bersonol a gedwir

Mae'r math o wybodaeth bersonol a gedwir yn cynnwys

- manylion personol megis enw, cyfeiriad, dyddiad geni, nodweddion adnabod y disgybl a manylion cyswllt y rhieni a gwarcheidwaid;
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnlol a chenedlaethol;
- gwybodaeth am gefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol y disgyblion (dim ond ar gyfer paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir yr wybodaeth hon);

- manylion am statws mewnfudo'r disgybl (dim ond ar gyfer paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir yr wybodaeth hon);
- yr wybodaeth feddygol sydd ei hangen er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel pan fyddant o dan ofal yr ysgol;
- gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd;
- gwybodaeth am gysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol â disgyblion unigol pan fydd ei hangen ar gyfer gofalu am y disgybl.

Cyrff a allai rannu gwybodaeth bersonol

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a gedwir gan yr ysgol, AALLau a Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddisgyblion, eu rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol yn cael ei rhannu gyda chyrff eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu, er enghraifft gyda:

- chyrff addysg a hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud cais i fynd ar gyrsiau, i gael hyfforddiant, i drosglwyddo i ysgol arall neu pan fydd yn chwilio am arweiniad o ran y cyfleoedd sydd ar gael;
- cyrff sy'n gwneud gwaith ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, AALLau ac ysgolion, ar yr amod bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel;
- llywodraeth leol a chanolog ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill pan fo angen rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a chefnogi disgyblion unigol;
- gwahanol gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmyrn ac awdurdodau arolygu, pan fo'r gyfraith yn galw am drosglwyddo gwybodaeth er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith.

Mae gan ddisgyblion hawliau penodol o dan y Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys yr hawl gyffredinol i weld unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw gorff. Y dybiaeth yw bod

plentyn 12 oed yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau ac i ofyn am weld yr wybodaeth a gedwir amdano/amdani os yw'n dymuno gwneud hynny. Fel arfer, disgwylir i'r rhiant wneud cais ar ran plentyn sy'n iau na hynny.

Os ydych yn dymuno gweld eich data personol chi, neu eich plentyn, ysgrifennwch at y sefydliad o dan sylw. Mae manylion y sefydliadau hyn i'w gweld ar y wefan ganlynol (**gwefan yr ysgol neu'r AALI**) neu os nad yw hynny'n bosibl, gallwch gael copi caled gan yr ysgol (**manyion cyswllt**).

Gwybodaeth arall

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr awdurdod addysg lleol a'r ysgol yn rhoi gwerth mawr ar bwysigrwydd cadw gwybodaeth yn ddiogel ac mae ganddynt nifer o weithdrefnau yn eu lle er mwyn lleihau'r posibilrwydd o beryglu diogelwch data

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr awdurdod addysg lleol a'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir bob amser. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998

Y mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i ofyn am weld a chael copïau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi, er y gellir atal peth gwybodaeth ar adegau, a hynny'n gyfreithlon;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os byddai gwneud hynny'n achosi niwed neu boendod;

- yr hawl i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir;
- yr hawl i ofyn am iawndal os nad yw corff yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a'ch bod chi yn bersonol yn dioddef niwed;
- mewn rhai achosion bydd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y disgybl hawl i dderbyn copi o ddata personol a gedwir am ddisgybl sy'n gyfreithiol dan eu gofal. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol lle bernir nad oes gan yr unigolyn ddigon o ddealltwriaeth o'i hawliau o dan y Ddeddf.

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwyllo Deddf Diogelu Data 1998, i asesu a yw'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf neu beidio.

Gofyn am ragor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth bersonol a gasglwyd a'r defnydd ohoni, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb gwybodaeth bersonol, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â'r canlynol:

- ysgol eich plentyn **XXXX XXXXXX**
- eich Awdurdod Addysg Lleol **XXXX XXXXXX**
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ
- Llinell Gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545 745
- I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.ico.gov.uk

Atodiad D

Ffynhonnell gwybodaeth am gefndir ethnig - manylion am wybodaeth ynghylch cofnod disgyblion

Wrth gofnodi cefndir ethnig disgybl rhaid nodi ar wahân ffynhonnell yr wybodaeth honno am ei gefndir ethnig. Dyma'r categorïau dilys i'w defnyddio:

Darparwyd gan riant (rhieni)
Darparwyd gan y disgybl
Priodolwyd gan yr ysgol hon
Priodolwyd gan ysgol flaenorol
Arall/anhysbys

Atodiad E

Rhestr Weithredu'r Ysgol

- Defnyddio'r categorïau diwygiedig ar gyfer ethnigrwydd ar gyfer pob disgybl newydd, a hynny ar unwaith;
- Cynnal arolwg yn yr hydref 2009 o bob disgybl sydd ar y gofrestr, ac eithrio'r disgyblion newydd hynny y cofnodwyd categorïau ethnigrwydd diwygiedig ar eu cyfer yn ddiweddar, er mwyn ailgoladu'r wybodaeth;
- O 2010 ymlaen, dilyn y trefniadau cyffredinol a nodir yn y Cylchlythyr hwn.

Rhestr Weithredu'r Awdurdod Addysg Lleol

Sicrhau bod yr ysgolion wedi casglu'r holl ddata perthnasol mewn da bryd cyn cynnal y CYBLD fis Ionawr 2010 (awgrymwn eich bod yn pennu 1 Tachwedd 2009 fel dyddiad cau).

Atodiad F

Dogfennau cysylltiedig:

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 35/98 "Adroddiadau ar Gyflawniadau Disgyblion o 1999";

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 41/89 "Ystadegau Seiliedig ar Ethnigrwydd ar Ddisgyblion Ysgol";

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27/02 'Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion' 2002.

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth (Prif dudalen):

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/ims/?skip=1&lang=cy

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth (Is-dudalen):

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/ims/datamanagementims/?skip=1&lang=cy

s2s a'r System Drosglwyddo Gyffredinol:

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/ims/dataexchange/s2sandthefts/?skip=1&lang=cy

Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin - cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion.

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/educational_records?skip=1&lang=cyn

Gwefan Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA)

<http://www.becta.org.uk/>

I gael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Benjamin Graham-Woollard

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 1745

E-bost: DCELLS.SupportforLearnersDivision4@wales.gsi.gov.uk